**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD MERCHER, 20 EBRILL 2016**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir PJ Ashton (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, D Bailey, G R Banks, R G Brown, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, R I George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, A Holloway, J C Holmes, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, G Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, J G Shearer, K S Silk, K F Tampin, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams, J M Williams, G I S Williams ac E A York

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC37- 2016 |
|---|---|---|

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir GJ Bowker, P Harris, MC Mackenzie, DJ Mayor, S McNicholas, a TG Turner.

Darllenodd y Cadeirydd nodyn gan y Cynghorydd Susan McNicholas yn diolch i'r aelodau am eu negeseuon o gefnogaeth wrth iddi wella yn dilyn ei damwain.

| 2. | COFNODION | CC38- 2016 |
|---|---|---|

Rhoddwyd yr awdurdod i'r Cadeirydd lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC39- 2016 |
|---|---|---|

Nid oedd yr un datganiad o ddiddordeb i'w nodi.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC40- 2016 |
|---|---|---|

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Mr Fred Barker, aelod o'r Cyngor o 1995 hyd 2012, a chyn aelod o Gyngor Dinas a Sir Caer a Chyngor Dosbarth Maesyfed. Safodd yr aelodau a'r swyddogion ar eu traed fel arwydd o barch.

Nododd y Cadeirydd, ymhlith y digwyddiadau y bu'n bresennol ynddynt oedd seremoni urddo yr Uchel Siryf newydd, Ann Tudor, a rownd derfynol Gwobrau Cenedlaethol Crimebeat pan enillodd disgyblion Ysgol Uwchradd Crughywel y wobr gyntaf am eu cyflwyniad, a chael y drydedd wobr yn y gystadleuaeth yn gyffredinol.

Cynigodd y Cynghorydd Sir Van-Rees y dylid anfon telegram yn mynegi llongyfarchiadau twymgalon i'w Mawrhydi Y Frenhines ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, a chafodd y cynnig ei gefnogi gan y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC41- 2016 |
|---|---|---|

Cynghorodd yr Arweinydd y Cyngor y byddai'r cyfarfod ymgynghori olaf ynghylch moderneiddio ysgolion uwchradd yng Nghanolbarth a De Powys yn cael ei gynnal yng Ngwernyfed y noson honno. Dywedodd fod Freedom of Leisure wedi cyhoeddi buddsoddiad o £2 filiwn yn y canolfannau hamdden yn Aberhonddu, Rhaeadr a'r Trallwng. Nododd hefyd fod y gyfradd casglu rhent yn 99.69% yn ystod y chwarter diwethaf, yr uchaf erioed. Nododd hefyd y derbyniwyd grant o £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu tai cymdeithasol yng Nghrughywel a'r Drenewydd, ac £800,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth a diogelwch ar y ffyrdd. Nododd yr Arweinydd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer datblygu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg newydd yn y Trallwng, a bod y contract ar gyfer adeiladu 5 ysgol gynradd newydd yn nalgylch Gwernyfed wedi cael ei ddyfarnu.

| 6. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR | CC42- 2016 |
|---|---|---|

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd wedi cyfarfod am y tro cyntaf yn sgil ei gylch gwaith newydd i edrych dros y broses o integreiddio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a bod y Cynghorydd Stephen Hayes wedi cael ei benodi'n Gadeirydd. Dywedodd hefyd fod cyfweliadau ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Trawsnewid wedi cael eu cynnal yr wythnos flaenorol a bod unigolyn wedi cael ei benodi. Dywedodd wrth y Cyngor fod y Cabinet wedi cymeradwyo cyfres newydd o werthoedd staff a'u bod wedi cael adborth cadarnhaol gan y staff. Nododd hefyd fod dwy ddeddfwriaeth newydd wedi dod i rym, sef y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a oedd yn cyflwyno trefniadau rhanbarthol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol lle byddai Powys yn sefyll fel rhanbarth ar ei phen ei hun, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a fyddai'n cyflwyno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn lle Byrddau Gwasanaethau Lleol

| 7. | TROSGLWYDDIADAU | CC43- 2016 |
|---|---|---|

Cafodd y Cyngor fanylion ynghylch dau drosglwyddiad cyfalaf dros £500,000 y byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyngor ar eu cyfer. Nodwyd y dylai'r ffigyrau yn yr atodlen fod yn y miloedd. Cynigiwyd yr argymhellion gan yr Aelod Portffolio dros Gyllid, a'u heilio gan yr Arweinydd.

Pasiwyd yr argymhelliad o 64 pleidlais i 0.
http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodwyd yn yr amserlen a ffeiliwyd gyda'r cofnodion a lofnodwyd.** | **Yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y rheolau sefydlog ariannol.** |

| 8. | CYFANSODDIAD NEWYDD | CC44- 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor ynghylch y gwelliannau i adrannau'r canlynol y Cyfansoddiad:

| | |
|---|---|
| Adran 4 | Y Cyngor Llawn |
| Adran 5 | Y Cabinet |
| Adran 7 | Pwyllgorau Craffu |
| Adran 9 | Pwyllgorau Rheoleiddio |
| Adran 10 | Cyd-bwyllgorau |
| Adran 11 | Swyddogion |
| Adran 13 | Cyfrifoldeb am Swyddogaethau |
| Adran 14 | Mynediad at Reolau Gweithdrefnau Gwybodaeth |
| Adran 16 | Rheolau Gweithdrefnau Ariannol |
| Adran 18 | Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau |
| Adran 19 | Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion sy'n ymdrin â Materion Cynllunio |

Esboniodd Cyfreithiwr y Cyngor y byddai'r system bleidleisio electronig yn cofnodi ac yn cynnwys y pleidleisiau yn y cofnodion. Byddai'r hawl i ofyn am bleidlais wedi'i chofnodi'n parhau. Gofynnodd y Cynghorydd Sir Stephen Hayes am eglurhad ynghylch a fyddai modd gofyn am bleidlais wedi'i chofnodi o dan Reol ddrafft 4.66.2 ar ôl cynnal y bleidlais.

**PENDERFYNWYD aileirio Adran 4 Rheol ddrafft 4.66.2 er mwyn nodi'n glir bod yn rhaid cyflwyno cais am bleidlais wedi'i chofnodi cyn cynnal y bleidlais ei hun.**

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir MJ Dorrance welliant i Adran 5 Paragraff 5.26, a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir AW Davies, y dylid dileu'r gofyniad i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Cabinet o leiaf 24 awr cyn dechrau'r cyfarfod.

Pasiwyd y gwelliant o 34 pleidlais i 26 gyda 3 pleidlais wedi'u ymatal.
http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

**PENDERFYNWYD y dylai'r gofyniad yn Rheol ddrafft 5.36 i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Cabinet o leiaf 24 awr cyn dechrau'r cyfarfod gael ei ddileu.**

Nid oedd angen newid y Cyfansoddiad ynghylch cais i'r adran Gynllunio i gydnabod ceisiadau gan yr aelodau lleol i gyfeirio ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy, ond byddai'r mater yn cael ei godi gyda'r swyddogion perthnasol.

Cafodd yr argymhellion eu cyflwyno gan y Cynghorydd Sir SC Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel y'u diwygiwyd uchod, a'u heilio gan y Cynghorydd Sir JM Williams.

Pasiwyd y gwelliannau o 61 pleidlais i 2.

http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| (i) bod y newidiadau i Adrannau'r Cyfansoddiad newydd y nodir uchod yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar aileirio rheol ddrafft 4.66.2 a dileu rheol ddrafft 5.26.<br>(ii) bod Fersiwn 2 o'r Cyfansoddiad yn weithredol o 20 Ebrill, 2016. | Cytuno ar adrannau diwygiedig y Cyfansoddiad newydd. |

| 9. | CYFANSODDIAD PWYLLGORAU | CC45- 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor ynghylch cyfansoddiad y pwyllgorau.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir DR Price welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir KF Tampin, fod maint y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy yn aros yn 21 o aelodau.

Pasiwyd y gwelliant o 44 pleidlais i 20 gyda 2 bleidlais wedi'u hymatal.
http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

**PENDERFYNWYD bod maint y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy yn aros yn 21 o aelodau.**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir DW Meredith welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir MJ Dorrance, bod maint y Pwyllgor Craffu Pobl, y Pwyllgor Craffu Lle a'r Pwyllgor Archwilio yn parhau'r un fath.

Collwyd y gwelliant o 30 pleidlais i 31 gyda 3 pleidlais wedi'u hymatal.
http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

Cynigiodd y Cynghorydd Sir AG Thomas welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir GP Vaughan, fod aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi yn cynyddu i gynnwys yr Aelod Portffolio dros Gyllid.

Pasiwyd y gwelliant o 41 pleidlais i 20.
http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

**PENDERFYNWYD bod aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi yn cynyddu i gynnwys yr Aelod Portffolio dros Gyllid.**

Cynigwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sir SC Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, eiliwyd gan y Cynghorydd Sir GR Banks, fel y'u diwygiwyd uchod.

Pasiwyd yr argymhellion o 51 pleidlais i 12.

http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| **(i) bod aelodaeth y pwyllgorau'r Cyngor yn cael ei newid i 14 o Gynghorwyr Sir fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad (ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy sy'n aros yn 21 o Gynghorwyr Sir, a'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi sy'n cynyddu i 6 Cynghorydd Sir trwy ychwanegu Aelod y Portffolio dros Gyllid);**<br>**(ii) bod yr aelodaeth ddiwygiedig yn weithredol o'r Cyfarfod Blynyddol ar 11 Mai, 2016;**<br>**(iii) bod Cyfreithiwr y Cyngor yn diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu aelodaeth ddiwygiedig y pwyllgorau.** | **Symud ymlaen y gostyngiad yng nghyllideb y Cyngor wrth leihau aelodaeth pwyllgorau.** |

Gohiriwyd y Cyngor rhwng 12.15 p.m. a 12.30 p.m.
Gadawodd y Cynghorydd Sir PE Lewis y cyfarfod.

| 10. | CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU | CC46- 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor ynghylch dosbarthiad y Cadeiryddion Craffu yn dilyn un aelod yn symud o un grŵp gwleidyddol i un arall. Yn sgil y niferoedd cyfartal yng ngrwpiau'r Ceidwadwyr Cymreig a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, daeth y ddau grŵp i gytundeb a oedd yn arwain at hawl grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i bennu cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle. Penodwyd y Cynghorydd Sir Kelfyn Curry i'r swydd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Cynigwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir KS Silk, a'i eilio gan y Cynghorydd Sir JG Morris.

Pasiwyd yr argymhelliad o 51 pleidlais i 4 gyda 2 bleidlais wedi'u hymatal.
http://powys.moderngov.co.uk/mgA.aspx?M=2864

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad |
|---|---|
| **Dynodi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle i Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, fel y nodwyd ym mharagraff 1.6 o'r adroddiad, a nodi penodiad y grŵp gwleidyddol o ran y Cadeirydd.** | **Cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor o ran dynodi a phenodi Cadeiryddion ac aelodau.** |

| | |
|---|---|
| | |

| 11. | HYSBYSIAD O GYNNIG – Y CYNGHORYDD SIR MYFANWY ALEXANDER A'R CYNGHORYDD SIR GARETH RATCLIFFE | CC47- 2016 |
|---|---|---|

Trafododd y Cyngor yr hysbysiad o gynnig a gafodd ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir MC Alexander a'i eilio gan y Cynghorydd Sir GW Ratcliffe:

> Gelwir ar y Cyngor hwn i wneud llawer o benderfyniadau ond prin iawn yw'r rhai fydd yn cael canlyniadau pellgyrhaeddol a dramatig yn sgil newidiadau mawr i Ysgolion Uwchradd yr Awdurdod. Mae angen dod i'r penderfyniadau hyn mewn modd agored, yn dilyn trafodaeth mor eang â phosibl, ac i'r perwyl hwn, cynigir y dylai'r holl newidiadau sylweddol i Ysgolion Uwchradd Powys gael eu trafod gan y Cyngor Llawn. Gellir diffinio newidiadau sylweddol fel newidiadau i oedran derbyn (yn cynnwys diddymu darpariaeth ôl-16 a chreu ysgolion 3 -16 oed), newidiadau o ran statws iaith neu ffydd, (ac eithrio pan fydd y statws wedi newid yn organig trwy estyniad graddol yn narpariaeth y cwricwlwm), uno, neu reoli ar y cyd neu gau. Dylai trafodaeth o'r fath ganiatáu amser digonol i gynnal trafodaeth lawn ac, os yn bosibl, dylid gwe-ddarlledu'r cyfarfod er mwyn caniatáu aelodau'r gymuned i ddilyn y dadleuon. Yn dilyn y drafodaeth, dylid pasio cynnig a fyddai'n rhoi cyfle i'r Cyngor fynegi ei ewyllys democrataidd.

Wrth gyflwyno'r cynnig esboniodd y Cynghorydd Alexander fod hyn yn berthnasol i ysgolion uwchradd ac i newidiadau sylweddol yn unig. Dadleuodd y Cynghorydd Alexander fod teimlad o ddiffyg democratiaeth, a thrwy ganiatáu trafodaeth agored yn y Cyngor byddai'r penderfyniadau yn fwy derbyniol i'r gymuned. Cyfeiriodd y Cynghorydd Ratcliffe at benderfyniad gan Gyngor Sir Penfro i sicrhau mai'r Cyngor oedd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion ad-drefnu ysgolion, yn hytrach na'r Cabinet.

Cynigiwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Sir EA Jones, yr Aelod Portffolio dros Addysg, a'i eilio gan y Cynghorydd Sir DR Jones.

> Cyn diwedd y cyfnod ymgynghori presennol bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod i drafod yn llawn yr ymgynghoriad presennol sy'n ymwneud â Chanolbarth a De Powys, a bydd cyfarfod tebyg yn cael ei gynnal pan fydd cynigion ar gyfer gogledd y sir yn cael eu cyflwyno.

Roedd cynigydd ac eiliwr yr ail gynnig wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gohirio'r ystyriaeth hyd nes byddai'r Swyddog Monitro yn cael amser i edrych ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Cynghorydd Ratcliffe ynglŷn â phenderfyniadau ar addysg mewn awdurdodau lleol eraill. Dywedwyd wrth yr aelodau mai dyddiad tebygol y cyfarfod arbennig fyddai 16 Mai.

| 12. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD | CC48- 2016 |
|---|---|---|

**12.1 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio a Chyfrifoldeb dros Ginio Ysgol gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol yn cael ei ddefnyddio wrth ddarparu Cinio Ysgol?**

*Lle bynnag y bo'n bosibl rydym yn ceisio defnyddio cyflenwyr o Gymru a chyflenwyr lleol ar gyfer darparu cinio ysgol. Rydym ar hyn o bryd yn defnyddio nifer o gyflenwyr o Bowys, mae ein holl selsig yn dod o Langfords (Y Cwmni Selsig Cymreig) o'r Trallwng. Mae ein holl ddŵr potel a sudd ffrwythau ar gyfer ein hysgolion uwchradd yn cael eu cyflenwi gan Radnor Hills yn Nhrefyclo. Mae gennym rai cyflenwyr ffrwythau a llysiau sy'n dod o Henffordd a Forden (Y Trallwng)*

*Mae gan Gyngor Sir Powys nifer o ofynion y mae'n rhaid i gyflenwyr eu bodloni:*

- *Digon o gyflenwad h.y. yn gallu cyflenwi'r holl safleoedd o fewn ardaloedd daearyddol Powys. Mae ysgolion yn cael cyflenwadau cynnyrch ffres sawl gwaith yr wythnos; mae'r amlder yn dibynnu ar faint yr ysgol a'r cyfleusterau storio. Mae angen sicrhau y gellir dosbarthu 2-3 gwaith yr wythnos i bob sefydliad.*
- *Cynnyrch o ansawdd da, y mae'n rhain i gyflenwyr fodloni meini prawf penodol fel rhan o'r HACCP a sefydlwyd gan Gyngor Sir Powys. Mae'n rhaid i gyflenwyr gael archwiliad STS gan archwilydd allanol i sicrhau diogelwch bwyd y cynnyrch o'r fferm i'r fforc, yn unol ag argymhellion Pennington 2005.*
- *Pris/ychwanegiad rhesymol (ar gostau).*

*Rydym yn y broses o aros i NPS (Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) Cymru i wahodd ceisiadau tendro ar gyfer darparu contractau bwyd newydd i awdurdodau lleol, mae hyn yn debygol o fod ym mis Awst 2016. Mae'r gwasanaeth arlwyo yn gweithio gyda'r tîm gwasanaethau masnachol i sicrhau bod unrhyw gontractau bwyd newydd yn darparu gwerth am arian ac yn cynnal ansawdd ar yr un pryd.*

Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegol gan y Cynghorydd Dorrance ynghylch a fyddai'r Cabinet yn ymgymryd ag adolygiad arlwyo mewn ysgolion er mwyn hyrwyddo busnesau a chynhyrchwyr lleol, cadarnhaodd Aelod y Portffolio dros Addysg bod contractau'n cael eu hystyried.

**12.2 Cwestiwn i Aelod y Portffolio a chyfrifoldeb dros Dai gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Mae 'Safon Ansawdd Tai Cymru' Llywodraeth Cymru wedi trawsnewid hen stoc yn gartrefi sy'n well o ran arbed ynni ac yn addas at y diben ac yn rhai y gall trigolion fod yn falch ohonynt. Fodd bynnag, y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n aros i gael ei wneud yn ein hystadau tai – er enghraifft ailosod wyneb llwybrau a ffyrdd pengaead; atgyweirio ffensys a thorri cloddiau; a chlirio graffiti a thipio anghyfreithlon.**

**Beth yw cynlluniau'r Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn?**
*Fel y mae'r Cynghorydd Dorrance yn ymwybodol, mae'r cyngor yn buddsoddi cryn dipyn o arian wrth fynd ati i sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru ledled sir. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwariwyd dros £14.1 miliwn ar wella cartrefi tenantiaid, ac yn y flwyddyn ariannol bresennol rydym yn bwriadu gwario £15.2 miliwn yn 2016-17. Mae'r arian hyn yn cael ei wario'n bennaf ar elfennau sylfaenol*

*ein cartrefi (ceginau, ystafelloedd ymolchi newydd, ail osod toeon, insiwleiddio waliau allanol, ailweirio, systemau gwresogi newydd). Er bod gennym gronfa gyfalaf fach (£1 miliwn yn 2016-17) i wella elfennau eilaidd (gwaith i'r amgylchedd gerllaw ein cartrefi) ledled y sir, mae'r mwyafrif o'r eitemau y mae'r Cynghorydd Dorrance yn holi yn eu cylch yn cael eu cyflawni fel gwaith cynnal a chadw ymatebol.*

***Ailosod wyneb llwybrau a ffyrdd –** Rydym yn archwilio'r rhain yn gyson a hefyd yn ymateb i adroddiadau/cwynion gan denantiaid, cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd. Pan fydd angen ailosod wyneb rydym yn gwneud hyn ar sail ymatebol. Nid oes cynllun cyffredinol i ailosod wyneb holl lwybrau a ffyrdd y stoc dai.*

***Perthi y mae Tai yn gyfrifol amdanynt –** mae rhai perthi'n rhan o'r contract cynnal a chadw'r tir ac yn cael eu torri'n gyson gan ein contractwr, fodd bynnag cyfrifoldeb y tenantiaid yw cynnal a chadw rhai o'r perthi. Mae'r contract hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Os oes achosion unigol y mae angen gwaith arnynt, rydym yn ystyried y rhain fesul achos.*

***Ffensys** – nid oes rhaglen i adnewyddu ffensys. Mae'r rhain yn cael eu trwsio pan fydd angen, neu pan fydd problemau'n cael eu hadrodd gan denantiaid, cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd. Rydym wedi gwneud rhai cynlluniau gwella'r amgylchedd, a byddwn yn parhau i wneud pan fydd galw, a bydd y rhain o bryd i'w gilydd yn cynnwys gosod ffensys newydd.*

***Mae graffiti a thipio anghyfreithlon** ar ystadau cyngor yn cael eu hystyried yn fater cynnal a chadw ymatebol y mae angen mynd i'r afael ag ef ar frys, ac felly mae'n cael ei gyflawni fesul achos yn dilyn adroddiad gan denant, cynghorydd, neu aelod o'r cyhoedd, neu yn dilyn archwiliad o'r ystâd gan swyddogion y gwasanaeth tai.*

Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegol gan y Cynghorydd Dorrance yn gofyn am ymrwymiad i weithio gyda thenantiaid ac aelodau lleol i gynhyrchu cynllun mwy cadarn i reoli tai, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n dynodi'r portffolio Tai erbyn diwedd yr wythnos a byddai'n trefnu i'r Aelod Portffolio gysylltu â'r Cynghorydd Dorrance.

**12.3 Cwestiwn i Aelod y Portffolio dros Addysg gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

**Fel y mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae Estyn yn monitro cynnydd yn yr holl ysgolion ac mae hyn yn amrywio o fesurau arbennig ar gyfer ysgolion sy'n cael anawsterau, i drefn llai caeth ar gyfer yr ysgolion gorau, gyda'r mwyafrif yn rhan o'r grŵp canol sy'n cael archwiliad ar faterion penodol. Cyhoeddodd Estyn ar 16 Mawrth na fyddai Ysgol Uwchradd Gwernyfed yn y grŵp canol hwnnw mwyach oherwydd y cynnydd yr oedd wedi'i gwneud, a bydd yn hytrach yn ymuno ag ysgolion uwchradd megis y Trallwng, Maesydderwen a Chrughywel nad oes arnynt angen monitro ychwanegol (nid monitro penodol fel yr adroddwyd). Gallaf felly estyn gwahoddiad i'r Cabinet gynnig ei longyfarchiadau i Ysgol Uwchradd Gwernyfed ar ei llwyddiant?**

*Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Ratcliffe, gallaf gadarnhau fod Estyn yn cyflawni arolygiadau yn yr holl ysgolion, a byddant yn cael yn arolygiad o leiaf*

*unwaith mewn cyfnod o saith mlynedd. Mae lefel y monitro yn dibynnu ar ganlyniad yr archwiliad. Ceir pum canlyniad sef:*

- *Dim monitro*
- *Monitro gan yr Awdurdod Lleol*
- *Monitro gan Estyn sy'n cynnwys ymweliad gan dîm o Arolygwyr (HMI) tua 12-18 mis ar ôl yr arolygiad gwreiddiol. Pwrpas hwn yw dyfarnu'r cynnydd yn erbyn argymhellion craidd yr arolygiad.*
- *Gwelliant Sylweddol gyda gweithdrefn fonitro debyg i ysgolion a ddyfernir bod arnynt angen monitro gan Estyn.*
- *Mesurau Arbennig sy'n golygu ymweliad gan Arolygwyr (HMI) bob tymor.*

*Yn ystod arolygiad craidd Estyn o Wernyfed yn 2013 dyfarnwyd bod angen monitro gan Estyn. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro yn ystod Tymor y Gwanwyn a'r canlyniad oedd bod Gwernyfed wedi gwneud cynnydd digonol felly nid oedd angen monitro pellach o ran canlyniad arolygiad 2013. Mae hyn yn ganlyniad da i'r ysgol a'r Cyngor, ac fe ddaw yn sgil gwaith helaeth gan yr ysgol trwy gefnogaeth a her y gwasanaeth ysgolion ac ERW.*
*Mynegodd y Cabinet ei longyfarchiadau i'r ysgol ar y canlyniad hwn.*

Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegol y Cynghorydd Ratcliffe ynghylch cadarnhau bod y broses moderneiddio ysgolion at ddibenion addysgol yn unig, dywedodd yr Aelod Portffolio dros Addysg fod y broses wedi'i hanelu at wella safonau a dewisiadau pwnc er mwyn sicrhau darpariaeth addysg ymarferol ar gyfer y dyfodol.

**Y Cynghorydd Sir PJ Ashton (Cadeirydd)**